
Coeden Ddarllen Rhydychen

# 6 Y Pentref yn yr Eira

Roderick Hunt Alex Brychta



DRAKE




Roedd y plant yn yr ysgol.
Amser chwarae oedd hi.
'Dowch i mewn!' galwodd Mrs Jones.




Adroddodd Mrs Jones stori wrth y plant.
Stori am bentref oedd hi.
Roedd y pentref yn y mynyddoedd.




Roedd pawb yn hoffi'r stori.
Y Pentref yn yr Eira oedd ei henw.



Aeth y plant i ystafell Cad.
Roedden nhw eisiau antur.



Cododd Cad yr allwedd hud.
Dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.
'Mae'r hud yn gweithio,' meddai Cad.



Aeth yr hud â'r plant i'r pentref
yn yr eira.
'Mae'n hyfryd!' meddai Cad.



Neidiodd Onw yn yr eira.
'Dwi'n hoffi'r eira,' galwodd.
'Mae hyn yn hwyl.'



Chwaraeon nhw yn yr eira.
Gwnaethon nhw ddyn eira
a rhoi het Onw ar ei ben.



Neidion nhw yn yr eira.
Taflon nhw beli eira.
'Edrychwch,' meddai Wilma.



Gwelson nhw fachgen bach.
Roedd y bachgen yn tynnu sled.
Rhedodd bechgyn mawr ato.





Gwthion nhw'r bachgen bach drosodd.
Gwthion nhw'r sled drosodd
a rhedeg i ffwrdd.



Rhedodd y plant ato.
Helpon nhw'r bachgen bach.
Cododd Onw ei het.



Dywedodd y bachgen bach hanes y
bechgyn mawr.
Roedd Onw yn flin.



Gwisgodd Onw het y bachgen bach.
Gwisgodd ei gôt.
'Dowch,' galwodd.





Edrychodd y bechgyn mawr ar Onw.
Roedd Onw yn edrych fel y bachgen bach.
'Dowch!' meddai'r bechgyn mawr.



Taflodd y plant beli eira at y bechgyn mawr.
'Help! Help!' gwaeddodd y bechgyn mawr.




Rhedodd y bechgyn mawr i ffwrdd.
Neidiodd a neidiodd y bachgen bach
yn yr eira.



Rhoddodd y plant y bachgen bach
ar y sled.
Llusgon nhw'r bachgen adref.



Roedd y bachgen bach yn byw
efo'i daid.




Rhoddodd Taid ddiod i'r plant.
Dywedodd y plant hanes y bechgyn
mawr wrth Taid.



Fe ddywedon nhw hanes y peli eira
wrth Taid.



Chwaraeodd y plant yn yr eira.
Aethon nhw ar y sled.
'Mae hyn yn hwyl,' meddai Wilff.



Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
'Mae'n amser mynd,' meddai Cad.
'Dowch,' meddai hi.



Aeth yr hud â’r plant adref.

‘Am antur!’ meddai Dids.



Argraffwyd yng Nghymru

# 6 Y Pentref yn yr Eira

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 5

Llyfr 6

Stori gan
**Roderick Hunt**

Trosiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

**Rhagor o Storïau Pecyn A**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Y Peth'ma
Antur dan y Ddaear
Eli Diflannu
Dydi o ddim yn Deg
Y Ras Fawr
Anghenfil o Jôc

**Storïau yng Ngham 5:**

**Storïau Boncyff**

1 Yr Allwedd Hud
2 Antur gyda'r Môr-ladron
3 Coeden y Ddraig
4 Nain
5 Antur yn y Castell
6 Y Pentref yn yr Eira

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1986
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1998
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-158-7

9 780861 741588

ISBN 0 86 174158 7

DRAKE